

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANGERNYW
7:30YH 31^{AIN} MAWRTH 2021
(CYFARFOD DRWY GYSWLLT GWEFAN 'ZOOM' OHERWYDD COVID-19)

1 CROESO AC YMDDIHEURIADAU

1.1 Croesawyd bawb gan Clwyd Roberts (CR)

1.2 Presennol: Mark Davies (MD), Elen H Edwards (EHE), Ann Vaughan (AV), Diane Roberts (DR), Einir Williams (EW), R. Emlyn Williams (REW), Garffild Ll Lewis (GLL), Gwyn Williams (GW), Gwynfor Davies (GD) a Gwydion Jones (GJ)

Trafodwyd ar ddechrau'r cyfarfod fod angen i bob cynghorwr bresennoli ei hun neu ymddiheuro os nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd y Cyngor er tegwch i drigolion y gymuned maent yn ei gynyrchioli ac i gydymffurfio â'r Rheolau Sefydlog.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Dim datganiad.

3 COFNODION I'W GWIRO 3^{YDD} MAWRTH 2020

Cynnigwyd yn gywir gan EW ac eilwyd gan DR.

4 MATERION YN CODI

DR wedi gofyn wrth Cyngor Conwy am dafleni ynglyn â baw ci, heb dderbyn rhain, wedi gofyn eto amdanynt. Adroddodd AV nad yw Elwen Owen wedi derbyn rhain chwaith.

GLL yn adrodd ei fod wedi gofyn am arwyddion ym Mhandy Tudur ynglyn â hyn. Wedi cael ymateb fod y Cyngor Sir am yrru staff yno i baratoai adroddiad. DR i yrru ebost i GLL i holi ymhellach am hyn.

*GW yn cyraedd y cyfarfod.

7.5 CR na GLL heb gael cyfle i ddilyn fyny ar hwn.

EHE wedi cael cadarnhad fod y cynllun sgipiau yn parhau yn Llangernyw tan ddiwedd y flwyddyn, am wneud ymholiadau pellach i weld beth fydd yn digwydd wedyn ac adrodd yn ôl wedyn. EW am archebu 2 sgip (Pandy Tudur a Gwytherin ym mis Mai). EHE yn codi fod y criw sydd yn dod efo'r sgip i Llangernyw yn fisol hefyd yn derbyn eitemau i elusen.

5 CEISIADAU CYNLLUNIO

5.1 0/48269 – dim sylw pellach ynglyn â'r cais, dal i gymeradwyo.

5.2 0/48305 – cymeradwyo, dim sylw.

5.3 0/48337 – (*GW yn gadael y cyfarfod) cymeradwyo'r cais, dim sylw.

*GW yn ail-ymuno â'r cyfarfod.

6 MATERION ARIANNOL

6.1 Cyflog Enlli: wedi rhoi manylion am amser yn dilyn y cyfarfod diwethaf.

*GD & GJ yn ymuno â'r cyfarfod.

Trafodwyd y raddfa eang £50-£80 am gyfieithu buasai angen talu i Menter Iaith er enghraifft. Trafodwyd nad yw'r cyflog yn cyraedd yr isafswm y raddfa yma ar hyn o bryd. Trafodwyd ffigyrau ymysg y cynghorwyr. Cynnigion o £75 gan GD a £90 gan DR wedi ei eilio. AV yn datgan diddordeb ynglyn a'r eitem yma oherwydd cysylltiad teulu felly ddim yn rhoi barn ar y mater. Mwyafrif yn cefnogi'r ffigwr o £90 y tro am gyfieithu a nodi y gellir adolygu hyn yn achlysurol. Cytunwyd ar £90.

7 MATERION Y CYNGOR

- 7.1** Covid-19 cymorth i drigolion lleol: EW heb gael y sgwrs efo Conwy Cynhaliol am hyn eto. Penderfynwyd rhoi'r eitem yma ar agenda mis Mai gan obeithio fydd cyfyngiadau wedi llacio erbyn hynnu. EHE yn codi fod gan Merched y Wawr, Llangernyw eitemau ar gyfer codi ysbwriel (cedwir gan Jane Roberts) sydd ar gael ar gyfer Pandy Tudur a Gwytherin, gellir gwneud hyn ar hyn o bryd yn yr awyr agored.
- 7.2** Mainc solar: CR yn adrodd fod y fainc yn cael ei symud o'i lleoliad presennol dros y penwythnos. Sylfaen yn ei le yn barod. Kevin Roberts wedi holi beth i'w wneud efo'r ddau floc sylfaen sydd mewn lle yn y lleoliad presennol. MD yn nodi fod angen gwneud yn siwr fod rhain yn saff i'r cyhoedd. CR yn adrodd fod posibl rhoi mainc bren, er enghraifft, ar y safle. Gofynnodd EHE os yw rhoi mainc yno am atal mynedfa i lawr ucha'r Stag, cadarnhawyd na fyddai mainc yn amharu. Llawer o ddail yn disgyn yn y lleoliad. Trafodaeth am roi potiau blodau yno ar ben y sylfeini. CR am fynd i weld beth yw'r posibiladau ar ôl i'r fainc solar gael ei symud ac adrodd yn ôl yn y cyfarfod nesaf.
- 7.3** Un Llais Cymru: wedi cael gwybodaeth am gwrs ym mis Mai. Cost o £45 am fynychu. DR yn gofyn am fwy o wybodaeth am hwn, linc ar ebost y Cyngor Cymuned. DR am adael i bawb wybod os yw'n gallu mynychu.
- 7.4** Bryn Castell: CR wedi cysylltu â'r adran gynllunio, maent yn ymchwilio i mewn i'r mater.
- 7.5** Cilfan rhwng Tyn Ffordd a Rhwng y Ddwyffordd: perchennog tir cyfagos wedi bod yn annymunol efo pobl sydd wedi bod yn parcio yno gan honni taw nhw sydd berchen ar y tir yma. CR wedi bod mewn cyswllt efo Conwy, am gysylltu eto a chopio GLL yn yr ebost.
- 7.6** Pris torri glaswellt mynwentydd: REW wedi derbyn pris gan Dei Evans, pris ychydig yn rhatach, £420 am bob torriad. Dim tender arall wedi ei dderbyn. Pawb yn gytun i derbyn y pris yma, REW am adael i Dei Evans wybod.

8 ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR

Dim llawer i ychwanegu yn dilyn cyfarfod diwethaf. Cwynion am dyllau ar ffordd Allt Cefn Coch. Tyllau mawr wedi eu trwsio ond ddim y rhai llai. GLL am adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir eto am hyn. Materion ffyrdd eraill yn cael ei dilyn fyny hefyd.

9 BILIAU

- 9.1** Enlli: £47.30. Cytunwyd i dalu. GD yn gofyn os yw'r cyflog am y cyfieithu yn cychwyn o'r cyfarfod diwethaf. Cytunwyd fod y ffi am gyfieithu (£90 fel gytunwyd yn 6.1 uchod) yn cychwyn o'r cyfarfod diwethaf (3^{ydd} Mawrth 2021).
- 9.2** Anfoneb dŵr mynwent Llangernyw: £14.18. Cytunwyd i dalu.
- 9.3** Un Llais Cymru: tâl aelodaeth £168. Cytunwyd i dalu 1/4/2021.
- 9.4** CVSC: wedi ildio ffi aelodaeth eleni oherwydd y pandemig, felly dim angen talu.

10 MATERION LLEOL

EHE Allt Cefn Coch – dal mwy o waith i'w wneud ar hon.

Cwrs Llysgennad Twristiaeth y Sir, mae modd gwneud hwn yn rhithiol – diddorol iawn i addysgu eraill am hanes a treftadaeth y sir.

EW problem efo pont ger ei chartref. Angen gwneud gwellianau ar y bont, EW am gysylltu arwahan â GLL ynglyn â hyn.

GW problem baw cŵn ym Mhandy Tudur. Nodwyd fod hyn wedi ei godi mewn cyfarfodydd blaenorol. Mater dal yn broblem yn y pentref, mae'n debyg fod un teulu yn droseddwr cyson.

REW er gwybodaeth – brigyn wedi torri ar draws y llwybr yn y fynwent yn Gwytherin. Brigyn wedi ei wneud yn fainc yn y fynwent bellach, canmoliaeth am waith taclus iawn gan Kevin Roberts. EW yn codi y buasai hyn yn beth da i roi ar wefan Bro Cernyw. CR a REW am gyfarfod yn y fynwent i drafod canghenau eraill sydd o bosib angen eu torri.

AV angen prynu blodau mis nesaf ar gyfer tybiau blodau'r pentrefi. Pawb yn gytun fod AV yn gofalu.

DR codi fod tyllau ar y ffordd allan o'r pentref am Eglwysbach ger adwy Fedwen Arian. Cyfrifydd wedi dod yn ôl at DR yn dilyn y cyfarfod diwethaf ynglyn â'r TAW a ffeil sydd ei angen ar gyfer y cyfrifon.

11 CYFARFOD NESAF

28^{ain} Ebrill 2021 (Cyfarfod Rhithiol ar Zoom)

Cyfarfod yn dod i ben 8:40yh

Cymerwyd y cofnodion gan Enlli Vaughan